GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS

# Sut fydd GPC yn marchnata fy llyfr?

**Holiadur Awdur**

Fel awdur gyda'r Wasg, ein cam cyntaf a phwysicaf yw anfon holiadur awdur atoch. Mae'r ddogfen gynhwysfawr hon yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo a gwerthu eich llyfr i'r gynulleidfa briodol, yn ogystal ag hyrwyddo yn eang. Mae cynnwys yr holiadur yn ffurfio sail i'r cynllun marchnata a gwerthiant ar gyfer eich llyfr, ond byddwn hefyd yn gweithio gyda chi i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn llyfrgelloedd a siopau llyfrau yn rhyngwladol.

**Hyrwyddo a Marchnata**

Rydym yn cynhyrchu nifer o wahanol gatalogau'r flwyddyn, ac yn anfon rhain at ddosbarthwyr, llyfrwerthwyr, llyfrgelloedd, sefydliadau academaidd ac unigolion sydd ar ein rhestrau postio. Yn ogystal, mae taflenni a thudalennau siopau llyfrau rhithiol yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu gyda chynulleidfaoedd a chynadleddau allweddol.

Byddwn yn anfon copïau adolygu o'ch llyfr at gysylltiadau perthnasol yn y wasg. Gall rhai cyfnodolion gymryd amser hir i adolygu cyhoeddiadau newydd, ac nid yw adolygiadau mewn cyfnodolion yn cylchredeg yn hawdd. Ond gan fod y Wasg yn cyhoeddi testunau ar draws ystod amrywiol ac eang, mae eich argymhellion ar gyfer cyfnodolion addas yn werthfawr tu hwnt, yn enwedig os oes modd darparu enwau cyswllt a manylion. Rydym yn hysbysebu ym mhob cylchgrawn arbenigol perthnasol ble bo hynny'n addas.

Byddwn yn hyrwyddo eich llyfr ar wefan GPC (www.gwasgprifysgolcymru.org) yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn rhannu dolen at dudalen eich llyfr ar y wefan a deunyddiaeth gweledol i'w rhannu cyn dyddiad cyhoeddi.

**Cynadleddau**

Mae gennym amserlen gynadleddau gynhwysfawr sy'n ein galluogi i hyrwyddo eich llyfr mewn digwyddiadau perthnasol. Yn ogystal â'r cynadleddau mwy, lle bydd gennym ein harddangosfa ein hunain, gallwn yn aml ddarparu deunydd hyrwyddo ar gyfer cyfarfodydd llai i'w ddosbarthu i'r sawl sy'n bresennol. Nodwch yn yr holiadur i awduron unrhyw gynadleddau perthnasol yr ydych yn bwriadu ymweld â nhw.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi unrhyw alwadau sydd gennych i siarad yn gyhoeddus trwy ddarparu deunydd marchnata. Rhowch wybod i ni mewn da bryd os ydych yn bwriadu mynychu unrhyw ddigwyddiadau lle gellid hyrwyddo eich cyfrol.

**Dewisiadau cwrs**

Rydym yn darparu copïau prawf i diwtoriaid cyrsiau am ddim, lle bo hynny'n briodol. Mae hysbysiadau rheolaidd yn cael eu hanfon at academyddion perthnasol a llyfrgelloedd academaidd.

**Gwasanaeth ar ôl gwerthu**

Nid yw ein gwasanaeth marchnata a gwerthiant yn gorffen wedi i lyfr gael ei gyhoeddi. Mae gennym bolisi parhaus o hyrwyddo trwy daflenni a chatalogau sy'n seiliedig ar bynciau. Os gwyddoch am unrhyw bosibiliadau newydd o ran hyrwyddo'ch llyfr, gofynnir i chi gysylltu â ni.

**Prynu copïau o'ch cyhoeddiad**

Mae awduron, golygyddion a chyfranwyr y Wasg yn derbyn gostyngiad o 35% ar bris cyhoeddiadau GPC pan fyddant yn cael eu harchebu trwy ein gwefan neu'n uniongyrchol dros y ffôn. Byddwn yn anfon cyfarwyddyd i chi ar sut i hawlio'ch gostyngiad, sydd at eich defnydd chi yn unig.

**Dosbarthu**

Mae ein dosbarthwr yn y Deyrnas Gyfunol, Ingram Publisher Services UK, yn darparu gwasanaeth trwyadl ac effeithlon ar gyfer archebu a dosbarthu ein cyhoeddiadau'n rhyngwladol, ac eithrio lle'r ydym eisoes wedi sefydlu cysylltiadau dosbarthu lleol mewn gwledydd tramor.

Yng Nghymru, dosberthir ein llyfrau gan Gyngor Llyfrau Cymru, sy'n gwerthu trwy dîm profiadol o gynrychiolwyr gwerthiant, yn ogystal â thrwy'r wefan www.gwales.com.

Yn ychwanegol at hyn, mae Gwasg Prifysgol Chicago yn darparu gwasanaeth marchnata, gwerthiant a dosbarthu proffesiynol i gwsmeriaid yng Ngogledd a De America, Canada, Awstralia a Seland Newydd.

**Cynrychiolaeth**

Mae'r Wasg yn defnyddio cynrychiolwyr llyfrau sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Gyfunol i ymweld â chyfrifon masnach llyfrau allweddol. Am fwy o wybodaeth, ewch at ein tudalen Masnach.

**Hawliau cyfieithu**

Byddwn yn marchnata eich llyfr i amrywiaeth o gyhoeddwyr tramor, weithiau trwy wasanaeth asiantau hawliau. Os oes gennych syniadau ar gyfer ieithoedd y dylem eu hystyried neu gysylltiadau gyda chyhoeddwyr tramor, rhowch wybod i ni.